# Darparu gofal a chymorth ar ddiwedd oes

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi’r gofynion wrth gynorthwyo unigolion ar ddiwedd eu hoes. Mae hyn yn cynnwys cefnogi unigolion ac eraill i baratoi ar gyfer diwedd oes ac i gynllunio’r gofal a’r cymorth maent yn dymuno'i dderbyn yn ystod y broses o farw. Mae hefyd yn cynnwys darparu gofal a chymorth wrth i farwolaeth nesáu a chymryd y camau y cytunwyd arnynt yn syth ar ôl marwolaeth.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cael caniatâd a chael gafael ar wybodaeth am unigolion a chymorth a gofal diwedd oes
2. nodi a chytuno ar rolau a chyfrifoldebau eich hun ac eraill wrth ddarparu gofal a chymorth ar ddiwedd oes
3. cefnogi unigolion ac eraill pan fyddant yn derbyn gwybodaeth am ddiwedd oes
4. amseru rhyngweithiadau fel bod unigolion ac eraill yn gallu prosesu'r wybodaeth, ac y gallwch chi asesu eu hymatebion
5. sicrhau bod unigolion ac eraill yn cael yr amser, y preifatrwydd a'r cyfleusterau sydd eu hangen arnynt ar y cychwyn i addasu i'r wybodaeth
6. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i gael gafael ar yr wybodaeth, yr adnoddau a'r cymorth sydd eu hangen arnynt
7. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i gynllunio cymorth a gofal diwedd oes
8. annog unigolion i nodi eu dewisiadau a'u hanghenion o ran sut, ble a phwy maent yn dymuno ei gael gyda nhw pan fyddant yn marw
9. nodi ble gallai dewisiadau unigolion fod yn heriol a gweithio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â hyn yn sensitif
10. rhoi cymorth pan fydd unigolion neu eraill yn mynegi syniadau, teimladau neu bryderon am ddiwedd oes
11. monitro newidiadau ag unigolion wrth iddynt gyrraedd diwedd eu hoes
12. gweithio ag eraill i fynd i'r afael ag unrhyw boen neu ofid y gallai unigolion ei brofi
13. cysylltu â'r rhai a fydd yn bresennol ag unigolion pan fydd marwolaeth yn nesáu, yn unol â'u dewisiadau a'u hanghenion
14. sicrhau bod unigolion ac eraill yn cael y cymorth, y preifatrwydd a'r amser sydd eu hangen arnynt
15. cyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau ar ôl marwolaeth
16. cwblhau'r cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer gofal a chymorth ar ddiwedd oes
17. myfyrio ar sut y gwnaethoch chi gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau i ddarparu gofal a chymorth ar ddiwedd oes

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut mae cael gafael ar yr wybodaeth sydd ei hangen i ddarparu gofal a chymorth ar ddiwedd oes, a sut mae adolygu'r wybodaeth honno
2. pwysigrwydd cymorth amserol sydd wedi'i gydlynu'n dda yn ystod gofal diwedd oes
3. sut mae darparu amgylcheddau cefnogol a phwysigrwydd cyfathrebu effeithiol pan fydd unigolion ac eraill yn cael gwybod am ddiwedd oes
4. pwysigrwydd urddas, caredigrwydd a thosturi wrth ddarparu gofal a chymorth ar ddiwedd oes
5. sut mae cefnogi unigolion ac eraill â'u hemosiynau a chymhlethdod emosiynau yn ystod gofal a chymorth ar ddiwedd oes
6. y mathau o adnoddau a chymorth diwedd oes sydd ar gael i unigolion ac eraill, a sut i gael gafael arnynt
7. y newidiadau synhwyraidd a chorfforol sy'n digwydd ar ddiwedd oes
8. pwysigrwydd sicrhau bod gan unigolion ac eraill gymaint o reolaeth â phosibl i gynllunio cymorth a gofal diwedd oes
9. sut mae gwahanol gyflyrau iechyd yn gallu effeithio ar amserlen marwolaeth
10. effaith bosibl diwedd oes ar unigolion a'u teuluoedd
11. sut mae defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma i ddarparu gofal a chymorth ar ddiwedd oes
12. dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol ar ddarparu gofal a chymorth ar ddiwedd oes
13. dylanwad diwylliant, cefndir a ysbrydolrwydd ar ofal a chymorth ar ddiwedd oes
14. sut mae defnyddio strategaethau i reoli eich emosiynau a'ch ymatebion wrth ddarparu gofal a chymorth ar ddiwedd oes
15. y gweithdrefnau i'w dilyn yn y gweithle ar ôl marwolaeth
16. y cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer darparu gofal a chymorth ar ddiwedd oes
17. theorïau sy'n berthnasol i ddarparu gofal a chymorth ar ddiwedd oes
18. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a'r canllawiau perthnasol ar gyfer darparu gofal a chymorth ar ddiwedd oes
19. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth ddarparu gofal a chymorth ar ddiwedd oes
20. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill i ddarparu gofal a chymorth ar

ddiwedd oes

21. sut mae eich profiadau personol a'ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio wrth ddarparu gofal a chymorth ar ddiwedd oes, a sut i fynd i'r afael â hyn

22. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyr

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

HSCCLD336

Darparu gofal a chymorth ar ddiwedd oes

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD336 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Gofal a Chymorth ar Ddiwedd Oes, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |